

CYNLLUN GWAITH GRŴP CYFRANOGIAD Y STRATEGAETH: MAE GWAITH IEUENCTID YN CAEL EI WERTHFAWROGI A'I DDEALL

IONAWR 2020 – RHAGFYR 2020

Cefndir y grŵp

Sefydlwyd Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuencid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall' i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth a rennir a nodau strategol y Strategaeth Gwaith Ieuencid i Gymru. Wrth wneud hyn, rydym am ddatblygu dealltwriaeth a rennir o werth gwaith ieuencid yn y sector a'r tu hwnt iddo. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod cyfraniad strategol dulliau gwaith ieuencid ar flaen meddyliau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth gomisiynu neu ystyried effaith darpariaeth.

Dyma uchelgeisiau'r grŵp hwn:

- nodi'r dulliau mwyaf effeithiol o gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision gwaith ieuencid gyda gwleidyddion lleol a chenedlaethol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a rhanddeiliaid priodol eraill;
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir drwy waith ieuencid a'r manteision sy'n dod yn sgil pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwaith ieuencid;
- cydlynu a hyrwyddo thema flynyddol ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru a gweithgareddau o amgylch yr Wythnos Gwaith Ieuencid (ar y cyd â'r Grŵp Marchnata);
- cydweithio ar ddigwyddiadau marchnata a hyrwyddo sy'n canolbwyntio ar waith ieuencid a chydlynu cefnogaeth ar draws y sector i gynorthwyo wrth gyflawni prosiectau a gytunir ar y cyd (wedi'u cyflawni gyda/gan y Grŵp Marchnata);
- hyrwyddo straeon newyddion cadarnhaol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, rhanddeiliaid a'r cyfryngau i wella delwedd gyhoeddus pobl ifanc a'r proffesiwn gwaith ieuencid yng Nghymru; ac
- archwilio datblygu brand cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru a darparu amrywiaeth o gynhyrchion hyrwyddo i'w defnyddio mewn digwyddiadau marchnata cenedlaethol.

Aelodau'r grŵp

Keith Towler – Cadeirydd, Bwrdd Gwaith Ieuencid Dros Dro

Melanie Ryan – Rheolwr Datblygu / Prif Swyddog Gweithredol ar y cyd, Ieuencid Cymru

David Williams – Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Paul Glaze – Prif Weithredwr, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuencid Cymru (CWWYS)

Lowri Evans – Dirprwy Brif Swyddog Ieuencid, Cyngor Sir Ceredigion

David Walker – Rheolwr Cefnogi Ieuencid, Cyngor Sir Penfro

Caroline Ryan – Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, YMCA Caerdydd

Carlie Torlop – Gweithiwr Ieuencid ac Arweinydd y Tîm Ieuencid, YMCA Abertawe

Rich Flowerdew – Prif Swyddog, Sgowntiaid Cymru

Julia Rooney – Darlithydd mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Juliet Mackenzie – Cydlynnydd Ieuenctid a'r Gymuned, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Ve Van De Voorde – Swyddog Cyfranogiad Ieuenctid, Cyngor Bro Morgannwg
Gill Adams – Prif Reolwr y Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid, Cyngor Sir Caerfyrddin
Tania Russell-Owen – Promo Cymru
Joel Hodson – Tîm Ymgysylltu ag Ieuenctid, Llywodraeth Cymru
Donna Lemin – Tîm Ymgysylltu ag Ieuenctid, Llywodraeth Cymru

Tasgau allweddol

Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi rhoi amrywiaeth o swyddogaethau i Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall', gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc a'r sector wrth ddatblygu dulliau sydd wedi'u hanelu at gyflawni'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid, a datblygu tystiolaeth a fydd yn cefnogi model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yn y tymor hwy. Wrth wneud ein gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg a rôl gwaith ieuenctid wrth gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn nogfen 'Cymraeg 2050'. Fel gyda holl Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth, mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl ymrwymadau a nodir yn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd. Mae'r rheiny sy'n benodol i ffocws y grŵp hwn yn cynnwys ymrwymadau i'r canlynol:

- Datblygu, lansio a gweithredu Cynllun Cyfathrebu a Marchnata Gwaith Ieuenctid sy'n gwella'r ddealltwriaeth o rym ac effaith gadarnhaol gwaith ieuenctid
- Cryfhau cyfraniad gwaith ieuenctid ar draws agendâu'r llywodraeth, gan gynnwys ym myd addysg, gan feithrin partneriaethau i gefnogi cyflawni'r cwricwlwm
- Diweddarau ac ail-lansio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan egluro swyddogaeth gwaith ieuenctid wrth gefnogi ei gyflawniad
- Cefnogi gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid i ddangos effaith eu dulliau gweithredu trwy ddatblygu pecynnau cymorth ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar hunanwerthuso, monitro effaith, a mesur boddhad pobl ifanc o ran ansawdd y gwaith ieuenctid maent yn ei brofi
- Archwilio gyda gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid sut y gallant gael eu cefnogi'n well i ddatblygu a gweithredu mentrau arloesol a chydweithredol gydag amrywiaeth o bartneriaid
- Mwyafu cyrhaeddiad ac effaith y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid Genedlaethol flynyddol, y Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid a digwyddiad arddangos yr Wythnos Gwaith Ieuenctid, ynghyd â'r holl gyfleoedd eraill sy'n ymddangos yn y calendr digidol o ddigwyddiadau, fel mecanwaith ar gyfer hyrwyddo gwaith ieuenctid a phobl ifanc yn genedlaethol

Mae Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall' wedi cytuno ar ein rhaglen waith ddrafft o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn (Ionawr 2020 - Rhagfyr 2020). I ddechrau, mae'r rhain wedi cael eu nodi fel a ganlyn:

Cam gweithredu	Dyddiad dechrau'r gweithgaredd	Pwy
Ystyried anghenion tystiolaeth a chyfranogi mewn ymarfer mapio i hysbysu ein dealltwriaeth o ehangder a rôl gwaith ieuenctid yng Nghymru	Llywodraeth Cymru i nodi dyddiad	Holl aelodau Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth
Archwilio dulliau newydd ac adeiladau ar rai presennol ar gyfer mesur effaith ymyriadau gwaith ieuenctid ar bobl ifanc a meysydd gwasanaeth	Chwefror 2020	Heb benderfynu eto
Darparu trosolwg strategol i'r Grŵp Marchnata a Chyfathrebu Gwaith Ieuenctid a manteisio ar eu mewnbwn a'u harbenigedd	Yn parhau	Drwy gadeirydd y grŵp
Gweithio gyda Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth eraill i fapio rhyngddibyniaethau ar draws yr holl gynlluniau gwaith	Mawrth 2020	Holl aelodau Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth
Cyhoeddi cynllun cyfathrebu a marchnata gwaith ieuenctid drafft a'i ddiweddarau'n rheolaidd; cytuno ar sut y bydd yn derbyn adnoddau priodol	Mawrth 2020	Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a Llywodraeth Cymru
Sefydlu negeseuon craidd am waith ieuenctid yng Nghymru a hyrwyddo dulliau cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau	Bydd gweithgareddau'n dechrau ac yn gweithio tuag at yr Wythnos Gwaith Ieuenctid ym mis Mehefin 2020	Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a Grŵp Marchnata
Meithrin cysylltiadau strategol â sectorau allweddol, gan hyrwyddo gwerth ac effaith gwaith ieuenctid a cheisio cyfleoedd ar gyfer mentrau ar y cyd a chydweithio, yn enwedig â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Llywodraeth leol ○ Addysg ○ Iechyd ○ Sector gwirfoddol ○ Yr heddlu ○ Cyfiawnder ieuenctid 	Yn parhau	Aelodau Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a'r cadeirydd
Cydweithio â Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' i archwilio rôl pobl ifanc wrth asesu ansawdd	Mawrth 2020	Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae

darpariaeth gwaith ieuencid		gwaith ieuencid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall' a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu'.
Archwilio strwythurau sy'n caniatáu ac sy'n hyrwyddo gwaith partneriaeth rhwng sectorau gwirfoddol ac a gynhelir	Ebrill 2020	Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a Llywodraeth Cymru
Cefnogi'r gwaith o ailysgrifennu ac ail-lansio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid	Ebrill/Mai 2020	Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach